**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

6 Mawrth 2025

Ymgynghoriad ar adolygu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Annwyl Mark,

Efallai y byddwch yn cofio i Bwyllgor Cyllid y bumed Senedd gynnal gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn 2019. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft yn cynnig diwygiadau mewn wyth maes allweddol, gan gynnwys symleiddio'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â phenodi aelodau anweithredol i Fwrdd SAC. Mewn gohebiaeth ddilynol gyda'r Pwyllgor hwn (3 Mawrth 2022 a 16 Mawrth 2022), dywedodd y Gweinidog ar y pryd:

> *"Mae gen i ofn nad wyf i'n cytuno â chi bod yr achos ar gyfer y Bil yn un cryf. Mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu'r prif gynigion yn fater o egwyddor, ac nid yw'r Llywodraeth chwaith yn ystyried bod y materion sy'n weddill – yn rhai bychan ar y cyfan – yn rhai o flaenoriaeth. Mae'r Llywodraeth yn gwbl glir felly nad yw'n cefnogi'r broses o gyflwyno Bil."*

Yn dilyn anghymhwysiad diweddar cyn-Gadeirydd Bwrdd SAC, ysgrifennais at y Prif Weinidog ar y pryd ar 15 Ebrill 2024 gan nodi yr hoffai'r Pwyllgor edrych eto ar weithrediad Deddf 2013. Yn ei ymateb dyddiedig 4 Mehefin 2024, awgrymodd y Prif Weinidog y dylwn gwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd i drafod y mater ymhellach. Nododd y Prif Weinidog fod Ysgrifennydd y Cabinet yn gefnogol i'r sgwrs honno gael ei chynnal ond rhybuddiodd fod adnoddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd eu terfyn o ran cyflawni rhaglen ddeddfwriaethol bresennol y Llywodraeth.

Ers hynny, rwyf wedi ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y newidiadau i Ddeddf 2013 yr hoffai iddynt gael eu cyflwyno yn nhrefn blaenoriaeth. Yn ei ymateb, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r newidiadau i Ddeddf 2013 sy'n hanfodol ac yn ddymunol yn ei farn ef, ynghyd â newidiadau

dymunol i ddeddfwriaeth arall. Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried ei gamau nesaf, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar bob newid a gynigir yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol erbyn 28 Ebrill 2025.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.